



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Gyflawn 12 Ebrill 2008
Papur 2: Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Adroddiad y Prif Arholwr

Safodd 12 ymgeisydd (2 ym mis Hydref 2007) yr arholiad am Aelodaeth Gyflawn.

Ni lwyddodd yr un ymgeisydd i gyrraedd y marc pasio (cafwyd canran lwyddo o 100% ym mis Hydref 2007).

Sylw cyffredinol

Mae'r ganran lwyddo hynod siomedig uchod yn dangos cymaint o angen sydd i hyfforddi cyfieithwyr i gyfieithu i'r Saesneg. Os yw prif gyfieithydd yr Undeb Ewropeaidd yn dweud ei bod hi'n fwyfwy anodd dod o hyd i ddarpar gyfieithwyr sydd â gafael helaeth a chadarn ar eu mamiaith (ie, eu mamiaith!), mae'n amlwg bod angen neilltuo mwy o amser nag y byddai dyn yn ei ddisgwyl i agwedd ar fyd cyfieithu yng Nghymru sydd yn aml yn ail iaith i gyfieithwyr Cymraeg-Saesneg.

Hwyrach mai arwydd o'r amserau yw hi ei bod hi'n fwyfwy anodd dod o hyd i ddarnau o Gymraeg graenus i'w gosod yn ein harholiadau Sylfaenol a Chyflawn. Rhan o'r rheswm, mae'n siŵr, yw'r pwyslais a roir heddiw ar gyfathrebu'n syml a syth â'r gynulleidfa ac osgoi defnyddio geirfa a chystrawennau anghyfarwydd. Pwynt sy'n werth ei wneud ar ben hynny yw bod angen tipyn o gaboli ar y darnau sy'n cael eu gosod, ac mae hynny'n awgrymu bod angen gwella safonau golygu ein gweisg.

Er ein bod ni bron i gyd yn gyfarwydd iawn â chlywed a darllen Saesneg (heb sôn am ei siarad) yn feunyddiol, nid ar chwarae bach y mae trosi Cymraeg cymharol syml i Saesneg sy'n darllen fel Saesneg naturiol. Y gamp, wrth gwrs, yw gwybod pryd y mae glynu'n eithaf agos at y gwreiddiol a phryd y mae angen i'r cyfieithydd dynnu ar ei holl adnoddau ieithyddol, cyfuno hynny â cheisio defnyddio tipyn ar y dychymyg, a sicrhau bod y cyfieithiad gorffenedig yn llifo'n naturiol. 'Ai fel hyn y byddai rhywun sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf yn cyfleu'r ystyr?' yw'r ffon fesur bob tro. A chan fod cyfieithwyr proffesiynol mor gyfarwydd â chyfieithu Saesneg i'r Gymraeg, byddai disgwyl iddynt fod wedi sylwi ar deithi'r iaith y maent yn cyfieithu ohoni.

Cryfderau

Nodwedd amlwg ar waith yr ymgeiswyr a gafodd hwyl ar lunio cyfieithiadau graenus oedd iddynt ddefnyddio idiomau ac ymadroddion yn llwyddiannus - deall ystyr ac ergyd y Gymraeg a'u gwisgo mewn Saesneg a ddarllenai'n ddiraffferth o rwydd. Mae sawl ffordd o gyrraedd y nod. Er enghraifft, cynnwys y berfau hynny, fel '(to be) situated', 'to constitute' a 'to form' y bydd y Gymraeg yn defnyddio ffurfiau'r ferf 'bod' i'w cyfleu. Enghraifft o hynny yw'r cymal '... ruins are the backdrop ...' lle byddai '... ruins form the backdrop ...' wedi rhagori o dipyn. Mae hynny'n help i godi lefel soffistigeiddrwydd y dweud, a rhaid derbyn bod natur y gystrawen a'r eirfa yn aml yn fwy 'aruchel' nag ydyn nhw yn y Gymraeg. Enghraifft arall o'r math yna o beth fyddai troi '... the sky is like a sea of warmth' yn '... the sky resembles a sea of warmth'.

Gwendidau

O ran geirfa, cafwyd digon o enghreifftiau o gam-gyfieithu geiriau unigol a'r camgymeriadau hynny weithio'n deillio o fethu â dewis y ffurf gywir o blith amryw o ddewisiadau posibl, e.e. 'ineffectual' yn lle 'ineffective' neu 'inefficient'. Ar dro, câi gair fel 'sadness' ei gamsillafu'n 'saddness', camgymeriad a awgrymai na fanteisiodd yr ymgeisydd ar un o arfau hanfodol y cyfieithydd proffesiynol - y gwirydd sillafu. Mewn arholiadau ar y lefel hon, mae disgwyl i ymgeiswyr fanteisio i'r eithaf ar holl rychwant y cyfleusterau cyfrifiadurol sydd ar gael iddynt ac yna ddarllen dros eu gwaith i sicrhau cywiro'r gwallau nad oes modd i raglen gyfrifiadurol eu canfod.

Un o nodweddion y Saesneg yw'r ffordd y bydd hi'n trin y fannod a'r genidol, a rhaid bod yn ofalus iawn wrth drin y naill a'r llall. O fethu â'u trin yn gywir, gellir creu lletchwithdod yn y dweud a thynnu sylw at y ffaith mai cyfieithiad sydd gerbron y darlennydd.

Enghreifftiau o'r 'beiau' hynny yw 'the roofs and the walls' lle y byddai hi wedi bod yn well hepgor yr ail 'the', a'r cyfuniad 'the city phenomenon' lle y byddai 'the phenomenon of the city' wedi rhagori.

Sylwadau i gloi

Unwaith eto, rhaid i'r ymgeiswyr sylweddoli nad ar chwarae bach y mae llunio cyfieithiad cywir sy'n argyhoeddi fel darn o Saesneg naturiol a darllenadwy.

Y peth callaf i'w wneud i wella'u gafael ar deithi a rheolau Saesneg ysgrifenedig yw darllen llyfrau sy'n trafod Saesneg cywir, e.e.

- i. *The Right Word in the Right Place*, Readers' Digest, 1985. Er bod y gyfrol oleuedig a difyr hon allan o brint, mae copïau ohoni ar gael drwy wefannau llyfrau ail-law. Un o'r cyfranwyr iddi, gyda llaw, oedd yr Athro Alan R Thomas o'r Adran Ieithyddiaeth ym Mangor.

- ii. *The Cambridge Guide to English Usage*, gol. Pam Peters (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2004). Un o'r cyfranwyr i hon oedd yr Athro David Crystal, Bangor.

Ceir hefyd amryw o lyfrau ar Saesneg cywir yn yr adran gyfeirio mewn llyfrgelloedd lleol.

Rhaid hefyd yw darllen digon o Saesneg graenus – a'i astudio. Mae digon o Saesneg coeth i'w gael yn y papurau a'r cylchgronau Saesneg safonol.

Dylai'r ymgeiswyr ystyried teithi'r ddwy iaith yn ofalus, e.e. bod y pwyslais mewn brawddegau Saesneg yn tueddu i ddod ar y diwedd, bod brawddegau Saesneg yn debyg o fod yn feithach na rhai Cymraeg, a bod ysgrifennu yn 'ail iaith y byd' yn golygu nad yw awdur fel rheol yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa y mae'n ei hadnabod.

Diolch o galon i staff y swyddfa, ac i Nia'n enwedig, am eu gwasanaeth effeithiol arferol, ac i'r marcwyr am eu craffter a'u diwydrwydd.

**Prif Arholwr (o'r Gymraeg i'r Saesneg)
Mehafin 2008**